



**Bwletin Awdurdod S4C**  
**Cyfarfod 319 – 19 Chwefror 2009**  
**S4C, Caerdydd**

---

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2009.

**1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 318**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 318.

**2. Adroddiad y Cadeirydd**

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu brechwast ar gyfer amaethwyr yn y Cynulliad.

Roedd wedi cymryd rhan yn rhaglen radio Gwilym Owen i drafod cynigion S4C i adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Nododd ei fod yn gobeithio y bydd DCMS wedi gorffen y broses o benodi Aelod newydd yn fuan ac y byddai'r Aelod newydd yn cael ei benodi mewn pryd iddo/iddi fynychu cyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth.

Gorfu i'r Cadeirydd ohirio cyfarfodydd gyda'r Comisiynydd Plant, Keith Towler, a chwmni cynhyrchu yn ddiweddar oherwydd tywydd drwg. Bydd y cyfarfodydd yn cael eu hail drefnu.

Mae cyfarfod wedi ei drefnu gydag arbenigwyr ar faterion iaith plant i drafod ieithwedd rhaglenni.

**3. Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

Rhoddodd ddiweddariad i'r Awdurdod parthed datblygiadau yn ymwneud ag Adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Nododd fod Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ("LCO") drafft i alluogi'r Cynulliad i ddeddfu ym maes y Gymraeg. Penderfynwyd y byddai ymateb yn cael ei ddrafftio er mwyn ei ystyried gan yr Awdurdod ac yna ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu.

Mae'r Pwyllgor Dethol ar faterion Cymreig wedi cyhoeddi ei adroddiad yn dilyn ei ymchwiliad i effaith globaleiddio ar Gymru. Mae'r Adroddiad yn cynnwys sylwadau cadarnhaol am waith S4C gyda'r diaspora Gymreig.

Cyhoeddodd IJ fod Garffild Lloyd Lewis wedi ei benodi yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu, ac mae Elin Morris wedi ei phenodi yn Gyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol.

Nododd IJ fod gwaith sylweddol wedi cael ei wneud ar ddiweddarau'r gyllideb 5 mlynedd i geisio ymateb i'r sefyllfa economaidd bresennol a bod y gwaith hwn yn parhau.

Cyflwynodd y Gyfarwyddwr Comisiynu bapur yn adrodd ar gynnydd paratodau'r camau nesaf ar gyfer gwasanaethau i blant.

**4. Adroddiad ac Argymhellion y Pwyllgor Cynnwys**

Cyflwynodd ED adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Cynnwys. Esboniodd fod y Pwyllgor wedi ystyried yr Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni ar gyfer 2008 a'r Cynllun Rhaglenni ar gyfer 2009 ac wedi cymeradwyo'r dogfennau i'w cyflwyno i'r Awdurdod. Cyflwynwyd adolygiad swyddogion o berfformiad rhaglenni'r BBC ar S4C yn unol â gofynion y Bartneriaeth Strategol ac yn ogystal cyfeirwyd at bolisi S4C ar gyfer darllediadau etholiadol yn ystod cyfnod etholiadau Senedd Ewrop. Cymeradwywyd y dogfennau gan yr Awdurdod.

## **5. Materion Eraill**

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil
- Cynllun Gweithredu Amgylcheddol 2009